Eisteddfod Swyddffynnon 2019

Cynhaliwyd Eisteddfod Swyddffynnon nos Wener, 22ain Chwefror 2019 yn Neuadd Pantyfedwen, Pontrhydfendigaid. Y beirniad Llên a Llefaru oedd Bronwen Morgan, Llangeitho a'r beirniad Cerdd oedd Gwyn Nicholas, Llanpumpsaint. Ein Cyfeilyddes eleni oedd Manon Fflur Jones, Pontrhydfendigaid, merch ifanc o'r ardal sydd â dawn arbennig o gyfeilio, ac rydym fel pwyllgor yn ddiolchgar iawn iddi am ymgymryd â'r gwaith. Yr Arweinyddion oedd Annwen Davies, Meinir Jenkins, Dafydd Jones ac Efan Williams. Dymunwn ddiolch i bawb a ddaeth i gefnogi, boed yn y cystadlaethau llwyfan, ysgrifenedig, yn dysgu'r unigolion, trwy roi tarian neu gyfrannu rhodd ariannol – diolch i bawb.

Llywyddion yr Eisteddfod oedd Elfyn a Celia Jones, Pantydail, Pontrhydygroes. Celia yn Gyn-ysgrifenyddes yr Eisteddfod a wedi mynychu'r Ysgol yn Swyddffynnon pan yn blentyn. Cyflwynwyd hwy gan Annwen Davies a darllenwyd llythyr hyfryd wedi ei baratoi gan Celia yn sôn am y teulu yn dod i ardal y Bont a Swyddffynnon a hithau'n ifanc iawn. Bryd hynny, nid oedd gair o Gymraeg ganddi, ac ar ddyfodiad ei phlentyn cyntaf, Emlyn, gwnaethpwyd yr addewid o ddysgu Cymraeg. A hithau'n rhugl yn y Gymraeg mae wedi dal swyddi cyfrfiol, yn Ohebydd Papur Bro y Barcud am flynyddoedd, yn Gyn-Ysgrifenyddes yr Eisteddfod, yn Athrawes Gymraeg i ddysgwyr ac yn weithgar iawn o fewn i furiau Canolfan Edward Richard yn Ystrad Meurig. Cyfrinach arall a nododd yn ei llythyr oedd iddi gwrdd â Elfyn yn Eisteddfod Teulu James Pantyfedwen. Mae'r teulu cyfan wedi bod yn gefnogol i'r Eisteddfod am ddegawdau ac mae ei phlant Emlyn a Catrin wedi cystadlu yn yr Eisteddfod pan yn ifanc. Diolch iddynt am eu rhodd haelionus i gronfa'r Eisteddfod.

Bardd y Gadair eleni oedd un arall â'i gwreiddiau ym mhentref Swyddffynnon sef Megan Richards, Aberaeron, derbyniodd gadair fechan am gyfansoddi Emyn ar y testun "Pasg" o dan y ffugenw "Dilys". Roedd Seremoni'r Cadeirio yng ngofal Meinir Jenkins, Ynysforgan, cyrchwyd y Bardd buddugol i'r Llwyfan gan Annwen Davies ac Annwen Isaac, cyflwynwyd cadair (o waith Jeff Jones, Llanafan) i Megan gan Drysoryddes yr Eisteddfod, Annwen Davies. Cyfarchwyd y Bardd buddugol gan Joan Evans (a oedd yn cynrychioli ei brawd John Jones – enillydd y gadair llynedd) ac Annwen Isaac, Ysgrifenyddes yr Esiteddfod. Canwyd cân y cadeirio gan Dafydd Jones a'r Ffanfferwr oedd Efan Williams. Enillydd Tlws yr Ifanc o dan 25 oed, oedd Sioned Mair Bowen, Llanfihangel yr Arth derbyniodd y tlws am gyflwyno darn o lenyddiaeth ar y testun "Gobaith". Cyflwynwyd y tlws iddi gan Dafydd Jones.

Diolch i Bwyllgor Eisteddfod Teulu James Pantyfedwen am fenthyg y piano, i Bwyllgor y Neuadd am pob cydweithrediad wrth baratoi, i Annwen Davies, Cynhawdre am addurno'r Neuadd yn hardd yn ôl yr arfer, i wragedd y Capel a'r Gymuned am gynorthwyo efo'r lluniaeth, ac i'r dynion wrth y drysau.

Dyma'r canlyniadau:

Unawd Cyfyngedig: Emily Haf Jones
Unawd dan 6: Sara Pugh
Unawd dan 9: Mari Williams
Parti Canu Cynradd: Parti Myfenydd

Offeryn Cerdd Cynradd: Elin Williams
Unawd dan 12: Elin Williams
Unawd dan 15: Osian Jenkins
Offeryn Cerdd Uwchradd: Mali Gerallt
Unawd dan 18: Osian James
Alaw Werin: Efan Williams
Parti Canu Agored: Parti Camddwr
Her Unawd: Efan Williams
Unawd Gymraeg: Efan Williams

Llefaru Cyfyngedig: Anest Jones
Llefaru dan 6: Anest Jones
Llefaru dan 9: Ifan Williams
Parti Llefaru Cynradd: Parti Ysgol Bont
Llefaru dan 12: Elin Williams
Llefaru dan 15: Ifan Williams
Sgen ti Dalent: Mali Gerallt
Darllen darn o'r Ysgrythur: Vaughan Evans
Her Adroddiad: Maria Pugh

Brawddeg: John Jenkins
Limeric: Neli Jones
Brysneges: Megan Richards

Llawysgrifen dan 12: Beca Dwyryd
Llawysgrifen Agored: Eirlys Jones